LIN Conwy

CONWY

# Cyrsiau Partneriaeth i ddysgwyr ôl-16 yng Nghonwy
# Partnership Courses for post-16 learners in Conwy

**Prosbectws** | **Prospectus** 2019 | 2020







# Cynnwys
# Contents


Manylion Cyswllt
Contact Details 4

Neges gan Brif Swyddog Addysg Conwy
A Message from Conwy's Chief Education Officer 5

Beth Nesa?
What Next? 6

Dydd Mercher yw'r Dydd!
Wednesday is the Day! 6

Cymwysterau / Pwyntiau Tariff UCAS
Qualifications/ UCAS Tariff Points 7

Cyfleoedd Cyflogaeth y Dyfodol yng Ngogledd Cymru
Future Employment Opportunities in North Wales 8 | 9

Cyrsiau LINC Conwy
LINC Conwy Courses 10 | 11

Gwybodaeth am y Cyrsiau
Course Information 13 | 37

Cwestiynau Cyffredin
Frequently Asked Questions 39

Dewch i Ganfod Rhagor
Find Out More 40

Ffurflen Gais
Application Form 42

# Partneriaeth LINC Conwy

**Ysgol Emrys ap Iwan**

| | |
|---|---|
| Pennaeth | Mr Lee Cummins |
| Pennaeth Chweched | Mr John Seymour |

**01745 832287**

**Ysgol Bryn Elian**

| | |
|---|---|
| Pennaeth | Mr Dave Humphreys |
| Pennaeth Chweched | Mr Warren Punshon |

**01492 518215**

**Ysgol Eirias**

| | |
|---|---|
| Pennaeth | Mrs Sarah Sutton |
| Pennaeth Chweched | Mr Sean Gavin |

**01492 532025**

**Coleg Llandrillo**

| | |
|---|---|
| Pennaeth | Mr Lawrence Wood |
| Pennaeth Cynorthwyol | Mr Kevin Potts |

**01492 546666**

**Ysgol John Bright**

| | |
|---|---|
| Pennaeth | Mrs Ann Webb |
| Pennaeth Chweched | Mr Ben Williams |

**01492 864200**

**Ysgol Aberconwy**

| | |
|---|---|
| Pennaeth | Mr Ian Gerrard |
| Pennaeth Chweched | Mr Andy Umpleby |

**01492 593243**

**Ysgol y Creuddyn**

| | |
|---|---|
| Pennaeth | Mr Trefor Jones |
| Pennaeth Chweched | Mrs Siân Elen Williams |

**01492 544344**

**Ysgol Dyffryn Conwy**

| | |
|---|---|
| Pennaeth | Miss Elan Davies |
| Pennaeth Chweched | Mrs Glenda Barlow |

**01492 642800**

## Os oes gennych ymholiadau cyffredinol, ffoniwch;

## Rhwydwaith Conwy 14-19
## **07595 278 274**

# The LINC Conwy Partnership

**Ysgol Emrys ap Iwan**

| | |
|---|---|
| Headteacher | Mr Lee Cummins |
| Head of Sixth | Mr John Seymour |

**01745 832287**

**Ysgol Bryn Elian**

| | |
|---|---|
| Headteacher | Mr Dave Humphreys |
| Head of Sixth | Mr Warren Punshon |

**01492 518215**

**Ysgol Eirias**

| | |
|---|---|
| Headteacher | Mrs Sarah Sutton |
| Head of Sixth | Mr Sean Gavin |

**01492 532025**

**Coleg Llandrillo**

| | |
|---|---|
| Principal | Mr Lawrence Wood |
| Assistant Principal | Mr Kevin Potts |

**01492 546666**

**Ysgol John Bright**

| | |
|---|---|
| Headteacher | Mrs Ann Webb |
| Head of Sixth | Mr Ben Williams |

**01492 864200**

**Ysgol Aberconwy**

| | |
|---|---|
| Headteacher | Mr Ian Gerrard |
| Head of Sixth | Mr Andy Umpleby |

**01492 593243**

**Ysgol y Creuddyn**

| | |
|---|---|
| Headteacher | Mr Trefor Jones |
| Head of Sixth | Mrs Siân Elen Williams |

**01492 544344**

**Ysgol Dyffryn Conwy**

| | |
|---|---|
| Headteacher | Miss Elan Davies |
| Head of Sixth | Mrs Glenda Barlow |

**01492 642800**

## For general enquires, please contact:

## Conwy 14-19 Network
## **07595 278 274**

# Neges gan Brif Swyddog Addysg Conwy

## Annwyl Ddarllenydd,

Wrth i chi agosáu at ddiwedd eich gyrfa ysgol, byddwch yn wynebu penderfyniadau pwysig iawn a fydd yn effeithio ar eich dyfodol a'ch rhagolygon tymor hir.

Efallai y bydd nifer ohonoch yn dewis astudio pynciau sy'n cael eu cynnig yn eich ysgol gartref, ond efallai y bydd eraill ohonoch eisiau dilyn cyrsiau sy'n cael eu cynnig yn rhywle arall.

Dan rai amgylchiadau efallai y bydd pynciau'n gwrthdaro ar eich amserlen ac, yn hytrach na gorfod dewis pwnc arall, mae cyfle i chi astudio eich dewis bwnc mewn canolfan addysg arall erbyn hyn.

Mae gan bob canolfan addysg gyfleusterau rhagorol i ddisgyblion chweched dosbarth a, lle bynnag y dewiswch astudio, byddwch yn derbyn cymorth academaidd a phersonol i sicrhau eich bod yn cael pob cyfle i lwyddo. Mae rhai dysgwyr wedi dilyn cwrs astudio yn y coleg neu mewn ysgol arall ac maent wedi llwyr fwynhau'r profiad.

Sefydlwyd LINC Conwy ym mis Medi 2011 ac mae hwn yn sicrhau fod pob Ysgol Uwchradd yng Nghonwy a Choleg Llandrillo yn cydweithio i gynnig cymaint o ddewis ag sy'n bosibl i ddysgwyr ôl-16. Mae'r trefniadau yma wedi bod yn llwyddiannus fel y gwelwn yng nghanlyniadau arholiadau'r dysgwyr ac hefyd mewn adroddiad diweddar gan ESTYN. Lle bynnag y dewiswch astudio, bydd eich cynnydd yn cael ei fonitro'n agos a bydd eich ysgol gartref yn derbyn diweddariadau rheolaidd.

Gobeithio y bydd y prosbectws yma o ddefnydd i'ch helpu i wneud penderfyniadau am y cyrsiau yr hoffech eu hastudio.

Pob hwyl i chi yn y dyfodol.



DR LOWRI BROWN

Pennaeth y Gwasanaethau Addysg
(Prif Swyddog Addysg)

# A Message from Conwy's Chief Education Officer

## Dear Learner,

Now that you are coming to the end of your compulsory schooling, you will be faced with making very important decisions which will impact on your future and long term prospects.

Many of you may choose to follow subjects offered at your home school however, others may wish to follow courses offered elsewhere.

In some circumstances there could be a clash of subjects on your timetable and rather than making alternative choices you now have the opportunity to follow your preferred subject at another education centre.

All educational centres have excellent facilities for sixth formers and wherever you choose to attend you will be given both academic and personal support in order to ensure that you have every opportunity to succeed. Some learners follow a course of study at college or another school and have relished the experience.

LINC Conwy was established in September 2011 which included every High School in Conwy and Coleg Llandrillo working together in order to offer as much choice as possible for post 16 learners. This arrangement has been successful as demonstrated in learners' examination results and also in a recent ESTYN Report. Wherever you choose to study, your progress will be closely monitored and regular updates provided to your home school.

I hope that you will find the content of this prospectus to be helpful in enabling you to make decisions about the courses you would like to study.

I wish you all the best for the future.



DR LOWRI BROWN

Head of Education Services
(Chief Education Officer)

# Beth Nesa?

## Mae tri dewis gennych ym mis Medi.

1 Gallech aros yn yr ysgol a gwneud cyrsiau sydd ar gael ym mhrosbectws yr ysgol a'r prosbectws yma. Ym mis Medi 2019 byddwch yn gallu aros ymlaen yn y chweched dosbarth a ddewiswch chi a bydd gennych fwy na 30 o gyrsiau galwedigaethol a chyrsiau AS eraill i ddewis ohonynt. Cânt eu dysgu naill ai yn eich ysgol gartref, mewn ysgol arall neu gan y coleg.

2 Gallech adael yr ysgol a chymryd un o'r cyrsiau llawn amser niferus sydd ar gael yn y coleg. Mae rhestr o'r rhain ym mhrosbectws y Coleg a dylai hwn fod ar gael yn yr ysgol.

3 Neu'n olaf, gallech chwilio am brentisiaeth sydd ar gael ar wahanol lefelau neu swydd, un gydag elfen o hyfforddiant ynddi fyddai orau.

Pa ddewis bynnag a wnewch chi, bydd cyfleoedd da i gael swydd yn rhanbarth Gogledd Cymru yn y dyfodol. Mae rhagor o wybodaeth am y rhain ar dudalen 8, 9 a 10.

## DYDD MERCHER YW'R DYDD!

Os dewiswch opsiwn 1 uchod, bydd y dewisiadau cyrsiol sydd yn y prosbectws yma ar gael ar Ddydd Mercher. Mae hyn yn golygu y gallwch ddewis astudio cwrs yn unrhyw ysgol uwchradd yng Nghonwy neu yng Ngholeg Llandrillo, ar yr amod eich bod yn gallu cyflawni'r meini prawf mynediad. Mae gan rai cyrsiau uchafswm dysgwyr oherwydd y math o ddysgu a wnânt. Os bydd gormod o fyfyrwyr wedi cofrestru ar gwrs ac na allwn redeg ail grŵp, byddwn yn defnyddio ffurflen gais y dysgwr i ddewis yr ymgeiswyr fydd yn cael lle. Gwnawn ein gorau i adael i gymaint o ddysgwyr ag sy'n bosib ddilyn eu dewis gyrsiau a byddwn yn rhoi blaenoriaeth i ymgeiswyr Blwyddyn 12.

Trwy gael diwrnod llawn i astudio cwrs, bydd y dysgwr yn cael profiadau dysgu mwy dwys. Bydd y staff yn gallu trefnu tripiau a gwahodd ymwelwyr heb effeithio ar eich astudiaethau eraill. Byddwch yn gallu gwneud tasgau hirach heb i'r gloch dorri ar eich traws ac heb i chi orfod symud i ddosbarth arall. Gyda phynciau ymarferol bydd hyn yn golygu bod canlyniadau'r dysgwyr yn well a byddent yn fwy brwdfrydig i weithio. Wrth gwrs, mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod yn bresennol bob dydd Mercher oherwydd bydd unrhyw absenoldeb yn andwyo gwerth wythnos lawn o ddysgu.

Yn gyffredinol bydd y diwrnod yn rhedeg o 9.30am hyd 2.30pm sy'n cymryd i ystyriaeth yr amser teithio i'r ganolfan bellaf o'ch ysgol gartref. Bydd cludiant ar gael i chi i'ch ysgol gartref ac yn ôl adref.

**Neilltuwch ychydig o amser i ddarllen y prosbectws yma. Mae'n rhoi blas i chi o'r pethau sydd ar gael i CHI ac yn amlinellu'r ffordd greadigol y gall eich cam nesaf mewn addysg fod mor ystyrlon ac amrywiol ag sy'n bosibl. Mae ein partneriaeth yn cynnig cyfleoedd cyffrous a fydd, gobeithio, yn rhoi'r dewis perffaith i chi!**

# What Next?

## There are three routes you can take in September.

1 You could stay in school and follow courses that are available from both your school prospectus and this prospectus. In September 2019 you will be able to stay on in the sixth form of your choice and still have over 30 vocational and academic courses to choose from. They will be taught in either your home school, at another school or by the college.

2 You could leave school and take one of the many full time courses that are available at college. These are listed in the College prospectus that should be available in school.

3 Or finally, you could look for an apprenticeship which are available at different levels or work, preferably with an element of training included.

Whichever of the 3 options you choose, significant opportunities will exist for future employment in the North Wales region. More information about these can be found on page 8, 9 and 10.

## WEDNESDAY IS THE DAY!

If you choose option 1 above, the course choices in this prospectus will be available on a Wednesday. This means you can choose to study a course at any high school in Conwy or at Coleg Llandrillo, providing you meet the entry criteria. Some courses do have a maximum number of learners due to the nature of the learning. Where a course is oversubscribed and we cannot put on a second group, delivery staff will use the learner application form to rank applicants. Every effort will be made to meet as many learners' choices as possible and preference will be given to Year 12.

Having a whole day to study a course will allow for more intensive learning experiences. Staff will be able to arrange trips, invite visitors without affecting your other studies. You will be able to undertake longer tasks uninterrupted by the change bell and the need to move class. For practical subjects this should enable better outcomes and generate more motivation. Of course, you must ensure full attendance every Wednesday as any absence will be even more damaging to a whole week's worth of learning.

In general the day will run from 9.30am to 2.30pm which will allow travel time to the furthest centre from your home school. Transport will be provided from and to your home school.

**Take some time to read this prospectus. It gives you a flavour of what's on offer for YOU and outlines the creative way in which your next step in education can be as purposeful and varied as possible. Our partnership offers some exciting opportunities which we hope will give you a perfect choice!**

# Cymwysterau

Mae'r cyrsiau i gyd ar gael ar Lefel 3.

### LEFELAU A TGA

Mae Lefel A yn cynnwys dau gam: Mae'r AS yn cynrychioli blwyddyn gyntaf o gymhwyster Lefel a er bod modd ei astudio ar wahân hefyd. Mae AS yn cyfrif am 40% o'r radd Lefel A gyfan. Mae Lefel A ar gyfer pynciau penodol a chânt eu hasesu'n bennaf drwy arholiadau allanol.

### CYMWYSTERAU GALWEDIGAETHOL

Mae'r cymwysterau yma'n cynnwys BTEC a Cambridge Technicals OCR ac yn darparu dull ymarferol, realistig o ddysgu heb aberthu unrhyw theori pwnc hanfodol. Maent yn addas i ddysgwyr fyddai'n dewis cael eu hasesu drwy gydol y cwrs.

Mae statws cymwysterau galwedigaethol yn gyfartal â'r Lefelau A

**Pwyntiau Tariff UCAS ar gyfer TGA Lefelau A/AS a Chymwysterau BTEC/ OCR Lefel 3.**

| PWYNTIAU TARIFF UCAS | TGAU LEFEL A | TGAU LEFEL AS | DIPLOMA BTEC/ DIPLOMA OCR | BTEC DIP ATODOL/ TYSTYSGRIF ESTYNEDIG OCR DIP ATODOL | TYSTYSGRIF BTEC/ OCR |
|---|---|---|---|---|---|
| 112 | | | D*D* | | |
| 104 | | | D*D | | |
| 96 | | | DD | | |
| 80 | | | DM | | |
| 60 | | | MM | | |
| 56 | A* | | | D* | |
| 48 | A | | MP | D | |
| 40 | B | | | | |
| 32 | C | | PP | M | |
| 28 | | | | | D* |
| 24 | D | | | | D |
| 20 | | A | | | |
| 16 | E | B | | P | M |
| 12 | | C | | | |
| 10 | | D | | | |
| 8 | | | | | P |
| 6 | | E | | | |

(D – Anrhydedd, M – Teilyngdod, P – Pasio)

# Qualifications

All the courses are offered at Level 3.

### GCE A LEVELS

An A Level consists of two stages: the AS represents the first year of a two year A Level qualification although it can also be studied separately. AS makes up 40% of the overall A Level grade. A Levels adopt a subject approach and are assessed in the main by external examinations.

### VOCATIONAL QUALIFICATIONS

These qualifications include BTEC and OCR Cambridge Technicals and provide a practical, real-world approach to learning without sacrificing any of the essential subject theory. They suit learners who prefer to be assessed on how they are performing throughout the course.

Vocational qualifications have equal status to A Levels

**UCAS Tariff Points for GCE A/ AS Levels and BTEC/ OCR Level 3 Qualifications.**

| UCAS TARIFF POINTS | GCE A LEVEL | GCE AS LEVEL | BTEC DIPLOMA/ OCR DIPLOMA | BTEC SUB DIP/ EXT CERT/ OCR INTRO DIP | BTEC/ OCR CERT |
|---|---|---|---|---|---|
| 112 | | | D*D* | | |
| 104 | | | D*D | | |
| 96 | | | DD | | |
| 80 | | | DM | | |
| 60 | | | MM | | |
| 56 | A* | | | D* | |
| 48 | A | | MP | D | |
| 40 | B | | | | |
| 32 | C | | PP | M | |
| 28 | | | | | D* |
| 24 | D | | | | D |
| 20 | | A | | | |
| 16 | E | B | | P | M |
| 12 | | C | | | |
| 10 | | D | | | |
| 8 | | | | | P |
| 6 | | E | | | |

(D – Distinction, M – Merit, P – Pass)

# Cyfleoedd i weithio yng Ngogledd Cymru yn y dyfodol

Bydd yr wybodaeth sy'n dilyn yn rhoi brasolwg i chi o ddatblygiadau yng Ngogledd Cymru a fydd yn arwain at gyflogaeth. Amcangyfrifir y bydd 40,000 o swyddi'n cael eu creu dros y 10 mlynedd nesaf.

Mae'n hanfodol denu, penodi a chadw pobl sydd â'r sgiliau priodol i gymryd lle'r gweithlu sy'n heneiddio yn y meysydd hynny o dyfiant sydd angen mwy o ofynion arbenigol.

Mae cyflogwyr yn rhoi pwys cynyddol y dyddiau hyn ar y gallu ychwanegol i weithio mewn dwy iaith neu fwy. Maent yn gweld y sgil yma'n ased y gallent ei farchnata i wella'u busnes ac mae gan 81% o fusnesau yng Ngogledd Cymru staff sy'n siarad Cymraeg.

Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi cyhoeddi Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru: http://regionalskillsandemploymentplan.co.uk Mae'n tynnu sylw at feysydd o dyfiant allweddol, sialensiau a phrinder sgiliau y mae esboniad o rai ohonynt isod.

### Sectorau Allweddol lle mae'r Galw
### Ynni a'r Amgylchedd

Mae'r sector yma'n cynnwys cynhyrchu ynni a'i ddefnydd, ynni adnewyddadwy a thanwydd amgen carbon isel, effeithiolrwydd ynni a rheoli gwastraff.

### Gweithgynhyrchu a Deunyddiau Lefel Uwch.

Mae'r maes yma'n cynnwys aerofod, cerbydau modur, cemegol a petroleum, peirianneg a pheirianneg dra-chywir, gwyddorau bywyd, deunyddiau ac araenau, opto-electroneg, TG penodol i sector a gwasanaethau cynnal, pecynnu, gwasanaethau proffesiynol, morol, dillad, metel a dur.

Mae Prinder Sgiliau'r Dyfodol yn cynnwys: Peirianyddion Proffesiynol/ Gwyddonwyr/Technolegwyr a Thechnegwyr

### Adeiladu

Mae cynlluniau i wneud gwerth £2.7bn o waith adeiladu ar y gweill dros y 10 mlynedd nesaf heb gynnwys Wylfa Newydd. Mae Galwadau'r Dyfodol yn cynnwys: Rheolwyr Prosiect/ Peirianwyr Sifil / Penseiri

### Sectorau Tyfiant lle mae'r Galw yn y meysydd
### Creadigol a Digidol

Mae'r sector allweddol yn cynnwys cyhoeddi, teledu, fideo, ffilm, theatr, radio, hysbysebu, cysylltiadau cyhoeddus, gemau cyfrifiadurol, celfyddydau perfformio a ffotograffeg ac mae'n parhau i ddatblygu fel un o'r prif yrrwyr cymdeithasol-economaidd i Ogledd Cymru. Yn ôl y cyflogwyr mae'r sgiliau sy'n brin ymysg pobl newydd sy'n dod i mewn i'r maes yn cynnwys sgiliau marchnata a gwerthu, arweiniad a rheolaeth, sgiliau iaith Gymraeg a defnyddio pecynnau meddalwedd penodol i'r sector.

### Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae'r sector yma'n ymwneud ag amrywiaeth mawr o wasanaethau yn cynnwys meddygon, nyrsys, nyrsys deintyddol, gwasanaethau cymorth gofal iechyd, gwasanaethau fferyllol, gofal cymdeithasol, gofal plant, gofal yr henoed, gofal preswyl a gofal yn y cartref. Mae hefyd gysylltiadau at weithgareddau yn y maes 'Gwyddorau Bywyd' yn cynnwys technoleg feddygol, gwasanaethau fferyllol, meddyginiaeth adfywio a niwro-wyddoniaeth. .

Mae'r sector yma yng Ngogledd Cymru'n wynebu problemau sylweddol gyda sgiliau a staffio yn y blynyddoedd sy'n dod.

# Future employment opportunities in North Wales

The following information will give you an overview of developments in North Wales which will lead to employment. It is estimated that 40,000 jobs will be created over the next 10 years.

Attracting, recruiting and retaining people with appropriate skills is critical to replace a naturally ageing workforce in those growth areas which require greater specialist demands.

For employers, the additional skill to work within two or more languages is increasingly seen as an asset which can be marketed to improve the business. 81% of businesses in North Wales have Welsh speaking staff.

The North Wales Economic Ambition Board has published the North Wales Regional Skills and Employment Plan: http://regionalskillsandemploymentplan.co.uk. It highlights key growth areas, challenges and skills shortages some of which are explained below.

### Demand Key Sectors
### Energy & Environment

This sector includes energy generation and its use, renewables and low carbon alternate fuels, energy efficiency, and waste management.

### Advanced Materials & Manufacturing.

This area includes aerospace, automotive, chemical and petroleum, engineering and precision engineering, life sciences, materials and coatings, opto-electronics, sector specific IT and support services, packaging, professional services, marine, garments, metal and steel.

Future Skills Shortages include: Professional Engineers/ Scientists/ Technologists and Technicians

### Construction

£2.7bn worth of construction projects are planned for the next 10 years excluding Wylfa Newydd. Future Demands include: Project Managers/ Civil Engineers / Architects

### Demand Growth Sectors
### Creative & Digital

This key sector includes publishing, television, video, film, theatre, radio, advertising, PR, gaming, performing arts, and photography and continues to evolve as one of the main socio-economic drivers for North Wales, . Employers report that skills in short supply from new entrants include sales and marketing skills, leadership and management, Welsh language skills and using sector specific software packages.

### Health & Social Care

This sector covers a broad range of services including doctors, nurses, dentists, dental nurses, healthcare support services, pharmacy services, social care, childcare, elderly care, residential care, and domiciliary care. There are also links to activities within the 'Life Sciences' sphere including medical technology, pharmaceutical services, regenerative medicine and neuroscience.

The sector in North Wales faces significant skills and staffing issues in the coming years.

## Twristiaeth a Lletygarwch

Mae Gogledd Cymru wedi ei restru'n un o'r 10 lle gorau i ymweld ag o yn y byd ac mae'n cyfrif am draean o'r holl dwristiaeth yng Nghymru. Mae tyfiant y sector Twristiaeth Awyr Agored yn arbennig, wedi gweld y sector yn newid ei ffocws yn gyffredinol a'r sialens yw sut i fanteisio ymhellach ar dyfiant cyfleusterau drwy'r flwyddyn gron.

## Bwyd a Diod

Mae'r sector bwyd a diod yn dal i fod yn gyfrannwr allweddol i economi Gogledd Cymru.

Mae angen cynyddu atyniad y diwydiant i bobl ifanc gyda chyfleoedd gyrfaol sydd i'w cael o astudio pynciau sy'n berthnasol i STEM i fynd i mewn i rolau megis technegwyr bwyd, peiriannwyr a thechnolegwyr – y mae angen cynyddol amdanynt oll o fewn y sector.

## Gwasanaethau Cyllid a Phroffesiynol

Mae galw cynyddol gan gyflogwyr am sgiliau lefel uchel yn y sector yma. Wrth i Gyllid Cymru ddatblygu'n Fanc Datblygu Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd wedi'i seilio yn ardal Wrecsam, yn agos at gwmnïau cenedlaethol a byd-eang eraill yng Nghaer, Lerpwl a Manceinion.

## Tourism & Hospitality

North Wales is in the top 10 of best places to visit in the world and accounts for a third of all tourism within Wales. The growth of the Outdoor Tourism sector particularly, has seen the sector generally refocus and the challenge is how to further capitalise on the growth of year round facilities and attractions.

## Food & Drink

The food and drink sector continues to be a key contributor to the economy within North Wales.

Attraction of young people into the industry is needed with career opportunities via STEM related subjects to enter roles such as food technicians, engineers, and technologists – all of which are increasingly required within the sector.

## Financial and Professional Services

There are increasing demands from employers for high level skills in this sector. As Finance Wales evolves into the Development Bank of Wales, the Welsh Government has confirmed that it will be based in the Wrexham area in close proximity to other national and global companies based in Chester, Liverpool and Manchester.




### Y Buddsoddiadau a Phrosiectau Rhanbarthol sy'n gofyn am y sgiliau:

1. WYLFA NEWYDD, YNYS MÔN.
2. GWEITHFA BIOMAS ORTHIOS, YNYS MÔN.
3. LAND & LAKES, YNYS MÔN
4. CANOLFAN SGILIAU A THECHNOLEG GWEITHGYNHYRCHU UWCH, GLANNAU DYFRDWY
5. CARCHAR EI MAWRHYDI BERWYN, WRECSAM
6. PORTH Y GOGLEDD, SIR Y FFLINT
7. WARREN HALL, GLANNAU DYFRDWY
8. PARC ADFER YNNI, GLANNAU DYFRDWY
9. SPACEPORT LLANBEDR, GWYNEDD
10. ADWEITHYDD MODIWLAR NIWCLEAR TRAWSFYNYDD, GWYNEDD
11. MORLYN LLANW BAE COLWYN, CONWY

Hefyd ewch i wefan Gyrfa Cymru: www.gyrfacymru.com

**Ffoniwch y Llinell Gyngor am Ddysgu a Gyrfaoedd 0800 028 4844**

### Regional Projects & Investments requiring skills:

1. WYLFA NEWYDD, ANGLESEY.
2. ORTHIOS BIOMASS PLANT, ANGLESEY.
3. LAND & LAKES, ANGLESEY
4. ADVANCED MANUFACTURING SKILLS & TECHNOLOGY CENTRE, DEESIDE
5. HMP BERWYN, WREXHAM
6. NORTHERN GATEWAY, FLINTSHIRE
7. WARREN HALL, DEESIDE
8. PARC ADFER ENERGY RECOVERY FACILITY, DEESIDE
9. LLANBEDR SPACE PORT. GWYNEDD
10. TRAWSFYNYDD NUCLEAR MODULAR REACTOR, GWYNEDD
11. COLWYN BAY TIDAL LAGOON, CONWY

Also visit the Careers Wales website: www.careerswales.com

**Phone the Learning and Careers Advice Helpline 0800 028 4844**

# CYRSIAU LINC CONWY:
eich dewisiadau ar Ddydd Mercher

| CWRS | CYMHWYSTER/ HYD Y CWRS | DYSGIR GAN | YMHLE | AR GAEL I: | RHIF Y DUDALEN |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwyddoniaeth Gymhwysol:** BTEC | Tystysgrif – 1 flwyddyn<br>Diploma Atodol – 2 flynedd | John Bright | John Bright | Bob ysgol | 13 |
| **Celf a Dylunio (Tecstilau):** CBAC | Lefel AS – 1 flwyddyn<br>Lefel A – 2 flynedd | John Bright | John Bright | Bob ysgol | 14 |
| **Adeiladu: Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig:** City & Guilds | Tystysgrif Technegol Uwch – 2 flynedd | Coleg Llandrillo | Coleg Llandrillo | Bob ysgol | 15 |
| **Cyfryngau Creadigol Teledu a Ffilm:** BTEC | Tystysgrif Estynedig – 2 flynedd | Coleg Llandrillo | Coleg Llandrillo | Bob ysgol | 16 |
| **Economeg:** CBAC | Lefel AS – 1 flwyddyn<br>Lefel A – 2 flynedd | Emrys ap Iwan | Emrys ap Iwan | Bob ysgol | 17 |
| **Peirianneg:** BTEC | Tystysgrif – 1 flwyddyn<br>Diploma Atodol – 2 flynedd | Coleg Llandrillo | Coleg Llandrillo | Bob ysgol<br>Dwyieithog | 18 |
| **Ffrangeg:** CBAC | Lefel AS – 1 flwyddyn<br>Lefel A – 2 flynedd | Y Creuddyn | Y Creuddyn | Bob ysgol<br>Dwyieithog | 19 |
| **Almaeneg:** CBAC | Lefel AS – 1 flwyddyn<br>Lefel A – 2 flynedd | Aberconwy | Aberconwy | Bob ysgol | 21 |
| **Llywodraeth a Gwleidyddiaeth:** CBAC | Lefel AS – 1 flwyddyn<br>Lefel A – 2 flynedd | Aberconwy | Aberconwy | Bob ysgol | 22 |
| **Iechyd a Gofal Cymdeithasol:** OCR Technegol Caergrawnt | Tystysgrif – 1 flwyddyn<br>Diploma Atodol – 2 flynedd | Bryn Elian | Bryn Elian | Bob ysgol | 23 |
| **Cerddoriaeth:** CBAC | Lefel AS – 1 flwyddyn<br>Lefel A – 2 flynedd | John Bright | John Bright | Bob ysgol<br>Dwyieithog | 24 |
| ****Cerddoriaeth:** CBAC | Lefel AS – 1 flwyddyn<br>Lefel A – 2 flynedd | Y Creuddyn | Y Creuddyn | Cyfrwng Cymraeg | 24 |
| **Cerddoriaeth:** BTEC mewn Cerddoriaeth Boblogaidd | Tystysgrif – 1 flwyddyn<br>Diploma Atodol – 2 flynedd | Aberconwy | Aberconwy | Bob ysgol | 27 |
| **Y Celfyddydau Perfformio** BTEC | Tystysgrif – 1 flwyddyn<br>Tystysgrif Estynedig – 2 flynedd | Emrys ap Iwan | Emrys ap Iwan | Bob ysgol | 28 |
| **Ffotograffeg:** CBAC | Lefel AS – 1 flwyddyn<br>Lefel A – 2 flynedd | Coleg Llandrillo | Coleg Llandrillo | Bob Ysgol<br>Cyfrwng Saesneg a Dwyieithog | 29 |
| **Seicoleg:** CBAC | Lefel AS – 1 flwyddyn<br>Lefel A – 2 flynedd | Coleg Llandrillo | Coleg Llandrillo | Bob ysgol | 31 |
| **Gwasanaethau Cyhoeddus:** BTEC | Tystysgrif – 1 flwyddyn<br>Diploma Atodol – 2 flynedd | Coleg Llandrillo | Coleg Llandrillo | Bob ysgol | 32 |
| **Gwasanaethau Cyhoeddus:** BTEC | Diploma Atodol – 1 flwyddyn<br>Diploma – 2 flynedd | Bryn Elian | Bryn Elian | Bob ysgol | 33 |
| **Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer Corff:** BTEC | Tystysgrif Estynedig – 2 flynedd | Emrys ap Iwan | Emrys ap Iwan | Bob ysgol | 35 |
| **Chwaraeon: Addysg Awyr Agored** BTEC | Tystysgrif – 1 flwyddyn<br>Diploma – 2 flynedd | John Bright | John Bright | Bob ysgol | 36 |
| **Cymraeg Iaith 1af:** CBAC | Lefel AS – 1 flwyddyn<br>Lefel A – 2 flynedd | Y Creuddyn | Y Creuddyn | Bob ysgol<br>Cyfrwng Cymraeg | 37 |

*** Mae hwn yn gwrs partneriaeth rhwng Ysgol y Creuddyn ac Ysgol Dyffryn Conwy ac mae'n cael ei ddarparu yn unol â'u hamserlenni*

# LINC CONWY COURSES:
your Wednesday choices

| COURSE | QUALIFICATION/ COURSE LENGTH | TAUGHT BY | WHERE | AVAILABLE TO: | PAGE NO: |
|---|---|---|---|---|---|
| **Applied Science:** BTEC | Certificate – 1 year<br>Sub. Diploma – 2 years | John Bright | John Bright | All schools | 13 |
| **Art & Design (Textiles):** WJEC | AS Level –1 year<br>A Level – 2 years | John Bright | John Bright | All schools | 14 |
| **Construction: Constructing the Built Environment** City & Guilds | Advanced Technical Ceriticate – 2 years | Coleg Llandrillo | Coleg Llandrillo | All schools | 15 |
| **Creative Media TV & Film:** BTEC | Extended Certificate – 2 years | Coleg Llandrillo | Coleg Llandrillo | All schools | 16 |
| **Economics:** WJEC | AS Level –1 year<br>A Level – 2 years | Emrys ap Iwan | Emrys ap Iwan | All schools | 17 |
| **Engineering:** BTEC | Certificate – 1 year<br>Sub. Diploma – 2 years | Coleg Llandrillo | Coleg Llandrillo | All schools Bilingual | 18 |
| **French:** WJEC | AS Level –1 year<br>A Level – 2 years | Y Creuddyn | Y Creuddyn | All schools Bilingual | 19 |
| **German:** WJEC | AS Level –1 year<br>A Level – 2 years | Aberconwy | Aberconwy | All schools | 21 |
| **Government & Politics:** WJEC | AS Level –1 year<br>A Level – 2 years | Aberconwy | Aberconwy | All schools | 22 |
| **Health & Social Care:** OCR Cambridge Technical | Certificate – 1 year<br>Intro. Diploma –2 years | Bryn Elian | Bryn Elian | All schools | 23 |
| **Music:** WJEC | AS Level –1 year<br>A Level – 2 years | John Bright | John Bright | All schools Bilingual | 24 |
| ****Music:** WJEC | AS Level –1 year<br>A Level – 2 years | Y Creuddyn | Y Creuddyn | Welsh Medium | 24 |
| **Music:** BTEC in Popular Music | Certificate – 1 year<br>Sub. Diploma – 2 years | Aberconwy | Aberconwy | All schools | 27 |
| **Performing Arts:** BTEC | Certificate – 1 year<br>Ext. Certificate – 2 years | Emrys ap Iwan | Emrys ap Iwan | All schools | 28 |
| **Photography:** WJEC | AS Level –1 year<br>A Level – 2 years | Coleg Llandrillo | Coleg Llandrillo | All schools English-medium & Bilingual | 29 |
| **Psychology:** WJEC | AS Level –1 year<br>A Level – 2 years | Coleg Llandrillo | Coleg Llandrillo | All schools | 31 |
| **Public Services:** BTEC | Certificate – 1 year<br>Sub. Diploma – 2 years | Coleg Llandrillo | Coleg Llandrillo | All schools | 32 |
| **Public Services:** BTEC | Sub. Diploma – 1 year<br>Diploma – 2 years | Bryn Elian | Bryn Elian | All schools | 33 |
| **Sport & Exercise Science:** BTEC | Extended Certificate – 2 years | Emrys ap Iwan | Emrys ap Iwan | All schools | 35 |
| **Sport: Outdoor Education:** BTEC | Certificate – 1 year<br>Diploma – 2 years | John Bright | John Bright | All schools | 36 |
| **Welsh 1st Language:** WJEC | AS Level –1 year<br>A Level – 2 years | Y Creuddyn | Y Creuddyn | All schools Welsh-medium | 37 |

*** This is a partnership course between Ysgol y Creuddyn and Ysgol Dyffryn Conwy and is delivered according to their timetables*


LINC Conwy

# GWYDDONIAETH GYMHWYSOL
## DIPLOMA ATODOL BTEC / YSGOL JOHN BRIGHT

### Beth fyddwch yn astudio?
- Mae egwyddorion Bioleg, Cemeg a Ffiseg yn derbyn sylw drwy gydol y cwrs.
- Technegau dadansoddi a ddefnyddir mewn labordai masnachol.
- Gwaith ymchwil ar yr amrywiaeth eang o yrfaoedd sydd ar gael yn y diwydiant gwyddoniaeth.
- Mae gwaith ymarferol yn rhan bwysig o'r cwrs yma ac mae'r gallu i ymchwilio'n annibynnol yn bwysig hefyd.

### I bwy mae'r cwrs?
Mae'r cwrs BTEC newydd:
- wedi ei lunio i gefnogi cynnydd y dysgwr i fynd i mewn i swydd neu i addysg uwch;
- i ddysgwyr sydd â diddordeb brwd mewn gwyddoniaeth ond sydd hefyd eisiau datblygu eu sgiliau rhyngbersonol a'u sgiliau meddwl ymarferol;
- yn berffaith i ddysgwyr a fyddai'n hoffi dilyn gyrfa yn y sector sy'n ymwneud ag iechyd neu sy'n ymwneud â gwyddoniaeth.

### Sut gewch chi eich asesu?
- Mae tair uned orfodol a fydd oll yn cael eu hasesu'n fewnol gan yr ysgol. Bydd y rhain yn cael eu cwblhau ym Mlwyddyn 12.
- Yn ogystal mae tair uned opsiynol a fydd yn cael eu hasesu'n fewnol.

### Gofynion mynediad:
- O leiaf gradd C neu gyfatebol mewn cwrs Gwyddoniaeth.
- O leiaf C mewn Mathemateg a Saesneg.

### Eich opsiynau ar ôl y cwrs:
Gall y cwrs yma fod yn llwybr at nifer o wahanol gyrsiau addysg uwch ac mae'n cael ei dderbyn yn eang ganBydd y cwrs yma hefyd yn rhoi'r cyfle i chi allu gwneud rhagor o astudio mewn sefydliadau addysg uwch/bellach.

# APPLIED SCIENCE
## BTEC SUBSIDIARY DIPLOMA / YSGOL JOHN BRIGHT

### What will you study?
- The principles of Biology, Chemistry and Physics are covered throughout the course.
- Analytical techniques used in commercial laboratories.
- Research on the wide variety of careers available within the science industry.
- Practical work plays an important part in this course and the ability to research independently is important.

### Who is the course for?
The new BTEC course is:
- designed to support learner progression into higher education or employment;
- for learners who have a keen interest in science but who also want to develop their interpersonal and practical thinking skills;
- perfect for learners who would like to pursue a career in the health related or science related sector.

### How will you be assessed?
- There are three mandatory units which will all be internally assessed by the school. These will be completed in Year 12.
- In addition there are three optional units that will be internally assessed.

### Entry Requirements:
- A minimum of a C or equivalent in a Science course.
- A minimum of a C in Maths and English.

### Your options after the course:
This course will allow a pathway to a number of different higher education courses and is widely accepted by both higher education establishments and employers alike.



# CELF A DYLUNIO: TECSTILAU

LEFEL A CBAC / YSGOL JOHN BRIGHT

### Beth fyddwch yn astudio?

Amrywiaeth o brofiadau a fydd yn cynnwys:

- archwilio ystod o dechnegau ffasiwn a thecstilau;
- tynnu lluniau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a chyfryngau ar amrywiaeth o feintiau gan gynnwys defnyddio llyfr brasluniau/dyddlyfrau i gofnodi eu gwaith ymchwil, esboniadau a chanfyddiadau.

Y meysydd astudio fydd Tecstilau Lluniedig a Gosodedig, Ffasiwn ac Ategolion.

### I bwy mae'r cwrs?

- Dysgwyr sy'n chwilio am rhagolygon gyrfaol cyffrous, heriol a gwobrwyol mewn amrywiaeth o broffesiynau creadigol.
- Mae'r cwrs yn gofyn penderfynoldeb, dyfalbarhad, ymroddiad a thalent yn ogystal â gweithio'n annibynnol y tu allan i amser gwersi. Bydd angen i fyfyrwyr brynu'r defnyddiau angenrheidiol ar gyfer bob uned/ arholiad. Byddai peiriant gwnïo sy'n gallu gwneud brodwaith llawrydd yn fanteisiol.

### Sut gewch chi eich asesu?

Caiff eich gwaith ei asesu ar gyfnodau sydd wedi'u penderfynu o flaen llaw gan eich tiwtor cwrs a bydd hyn yn cynnwys asesiad cymheiriaid a hunanasesiad. Yna caiff gwaith ei asesu gan arholwr allanol ar ddiwedd y flwyddyn. Mae Lefelau A ac AS yn cynnwys profion 5 awr dan reolaeth.

### Gofynion mynediad:

Gradd C neu'n uwch mewn TGAU Tecstilau neu Gelf.

### Eich opsiynau ar ôl y cwrs:

Caiff y cymhwyster ei gydnabod gan yr holl sefydliadau ac mae'n arwain at gyrsiau megis BA (Anrh) mewn Tecstilau/ Ffasiwn, BA (Anrh) mewn Tecstilau Lluniedig, BA (Anrh) mewn Newyddiaduraeth Ffasiwn, BSc mewn Technoleg Tecstilau a BA (Anrh) mewn Marchnata Ffasiwn/Tecstilau. Dim ond rhai o'r opsiynau yw'r rhain.

# ART & DESIGN: TEXTILES

WJEC A LEVEL / YSGOL JOHN BRIGHT

### What will you study?

A variety of experiences which will include:

- exploring a range of textiles and fashion techniques;
- drawing using a range of methods and media on a variety of scales including the use of sketchbook/ journals as records of research, explanation and findings.

The study areas will be Constructed and Installed Textiles, Fashion and Accessories.

### Who is the course for?

- Learners looking for exciting, challenging and rewarding career prospects within a variety of creative professions.
- The course requires determination, perseverance, dedication and talent as well as independent learning out of lesson time. Learners will need to purchase the necessary materials for each unit/exam. A sewing machine capable of free hand embroidery would be advantageous.

### How will you be assessed?

At pre-determined intervals by your course tutor to include peer and self assessment. Work will then be assessed by an external examiner at the end of the year. Both AS and A Level include 5hr controlled tests.

### Entry requirements:

Grade C or above in GCSE Textiles or Art.

### Your options after the course:

The qualification is recognised by all institutes and leads onto courses such as BA (Hons) Textiles/ Fashion, BA (Hons) Constructed Textiles, BA (Hons) Fashion Journalism, BSc Textiles Technology and BA (Hons) Textiles/Fashion Marketing. These are just a few options.



# ADEILIADU: ADEILADU'R AMGYLCHEDD ADEILEDIG

TYSTYSGRIF DECHNEGOL UWCH CITY & GUILDS - CWRS 2 FLYNEDD / COLEG LLANDRILLO

### Beth fyddwch yn ei astudio?

- Mae hwn yn gwrs generig sy'n cynnwys technegau ac egwyddorion adeiladu cyffredinol.
- Mae'r pynciau'n cynnwys: Dulliau domestig a masnachol o adeiladu, iechyd a diogelwch, technolegau ynni adnewyddadwy, mathemateg adeiladu, gwyddoniaeth a deunyddiau, dylunio mewn adeiladu, archwilio'r pridd, dylunio'r is-strwythur a thirfesur.
- Bydd ymweliadau safle a siaradwyr gwadd yn cael eu trefnu mewn cydweithrediad â phrofiad gwaith y byddwch yn ei drefnu eich hunan mewn adeiladu neu faes perthnasol, ac mae hyn oll yn rhan o'r cwrs astudio a phrofiad gofynnol.

### I bwy mae'r cwrs?

Dysgwyr sydd:

- â diddordeb mewn gyrfa broffesiynol mewn adeiladu megis pensaernïaeth, rheoli adeiladu a pheirianneg sifil;
- yn awyddus i ddatblygu sgiliau dadansoddol ac ymarferol i ddatrys problemau adeiladu a pheirianneg sifil i ateb yr heriau a wynebir yn yr amgylchedd adeiledig modern.

### Sut gewch chi eich asesu?

Prawf theori ar-lein ac aseiniad sy'n cael ei safoni'n allanol gan City and Guilds. Cewch asesiadau ffurfiannol eraill yn ystod darlithoedd i ganfod faint o gynnydd a wnewch.

### Gofynion mynediad:

4 TGAU Gradd C neu'n uwch gan gynnwys Gwyddoniaeth, Saesneg a Mathemateg.

### Eich opsiynau ar ôl y cwrs:

Graddau mewn Peirianneg Sifil ac Adeiladu, Pensaernïaeth, Gwasanaeth Mesur Meintiau a Thechnoleg Bensaernïol.

# CONSTRUCTION: CONSTRUCTING THE BUILT ENVIRONMENT

CITY & GUILDS ADVANCED TECHNICAL CERTIFICATE - 2 YEAR COURSE / COLEG LLANDRILLO

### What will you study?

- This is a generic course which covers general construction principles and techniques.
- Topics include: Domestic and commercial methods of construction, health and safety, renewable energy technologies, construction maths, science and materials, construction design, soil investigation, substructure design and surveying.
- Site visits and guest speakers will be arranged in conjunction with self-appointed work experience in construction or a related field form part of the required course of study and experience.

### Who is the course for?

Learners who:

- are interested in a professional career in construction such as architecture, construction management and civil engineering;
- wish to develop analytical and practical skills to solve civil engineering and construction problems to meet the challenges faced by a modern built environment.

### How will you be assessed?

An online theory test set and an externally moderated assignment by City and Guilds. Other formative assessments are carried out during lectures to determine progress.

### Entry Requirements:

4 GCSEs at Grade C or above including Science, English and Maths.

### Your options after the course:

Degrees in Civil Engineering and Construction, Architecture, Quantity Surveying and Architectural Technology.



# CYFRYNGAU CREADIGOL TELEDU A FFILM

## TYSTYSGRIF ESTYNEDIG BTEC - CWRS 2 FLYNEDD / COLEG LLANDRILLO

### Beth fyddwch yn ei astudio?

Byddwch yn cael profiad ymarferol o ddefnyddio camerâu a thechnegau a chonfensiynau generig i gynllunio, ffilmio a golygu fideos gyda meddalwedd o safon ddiwydiannol. Byddwch hefyd yn meithrin dealltwriaeth o brosesau cynhyrchu cyfryngau ac yn dysgu i ystyried sut mae cyfryngau'n cael eu defnyddio mewn ffyrdd gwahanol gan gynhyrchwyr yn y cyfryngau i gyfleu ystyron, negeseuon a gwerthoedd.

### I bwy mae'r cwrs?

I ddysgwyr sy'n chwilio am gyfle:

- i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau ymarferol mewn gwaith camera, gwaith clywedol a golygu;
- i ddysgu am y diwydiannau Teledu a Ffilm a'u perthynas gyda'u cynulleidfa;
- i gael cipolwg da ar y gwahanol fathau o swyddi sydd ar gael yn yr amrywiol sectorau.

### Sut gewch chi eich asesu?

Caiff y cwrs ei asesu'n allanol drwy aseiniadau ysgrifenedig ac ymarferol a osodir gan eich darlithwyr ac un arholiad ar-sgrin sy'n cael ei osod a'i farcio'n allanol.

### Gofynion mynediad:

Y gofynion mynediad yw 4 TGAU Gradd C neu'n uwch.

### Eich opsiynau ar ôl y cwrs:

- In the first year, to achieve the AS Level, you will complete a single coursework unit equating to 40% of the full A Level. This is assessed via a blend of interim assessment and feedback, with final external moderation taking place at the end of the AS year.
- In the second year, to achieve the full A Level, you will also complete a 'Personal Investigation' plus 'Externally Set Assignment' which together will equate to 60% of the full A Level.

### Entry requirements:

A minimum of 4 GCSEs Grade C or above. You will need to demonstrate a keen interest in Photography.

### Your options after the course:

This course adds to your qualifications and helps you to progress. You will gain UCAS points and be able to use these towards your application for a Higher Education course. If you choose to continue your studies in this subject, Coleg Llandrillo also offers a Foundation degree in Photography.




I chose this course because I want to work in Criminology. I learnt about this course from the LINC prospectus which caught my attention. I have some friends from my school who are attending the course, so it is not too difficult to follow the course away from my own school. Teachers are very helpful so I can get on with studying.

# SEICOLEG
LEFEL A CBAC / COLEG LLANDRILLO

### Beth fyddwch yn ei astudio?

Y diffiniad a roddir am Seicoleg yw gwyddoniaeth y meddwl a'r ymddygiad.

Bydd y cwrs Lefel A yn ymdrin â chwe agwedd.

- Biolegol, Ymddygiadol, Gwybyddol, Seicodynameg a Phositif. Mae pob agwedd yn ceisio esbonio ymddygiad dynol mewn ffordd wahanol.
- Byddwch hefyd yn dysgu sut mae Gwaith ymchwil seicolegol yn cael ei lunio, ei weithredu a'i ddadansoddi, yn ogystal ag edrych ar bum dadl gyfoes mewn Seicoleg – o faint y gallwch ddibynnu ar dystiolaeth tystion i foeseg niwrowyddoniaeth.

### I bwy mae'r cwrs?

Mae'r cwrs yn agored i ddysgwyr sydd eisiau:

- dilyn gyrfa mewn Seicoleg neu sydd â diddordeb cyffredinol mewn ymddygiad dynol. Mae'n gweithio'n dda gyda'r mwyafrif o gyfuniadau pynciau Lefel A;
- cael golwg gyffredinol ar y pwnc, ac nid yw'n tybio bod gennych wybodaeth am y pwnc yn barod. Ond, dylech fod â meddwl gwyddonol a chwilfrydig, gan fwynhau tasgau ysgrifenedig estynedig a theimlo'n gyfforddus yn dadansoddi data.

### Sut gewch chi eich asesu?

Arholir yr AS gyda dau arholiad ysgrifenedig ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd y Lefel A yn cael ei asesu drwy ddau arholiad ysgrifenedig pellach ar ddiwedd blwyddyn dau.

### Gofynion mynediad:

TGAU gradd C neu'n uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.

### Eich opsiynau ar ôl y cwrs:

Efallai y byddwch yn penderfynu gwneud cais am radd gyntaf mewn Seicoleg neu bwnc perthnasol, neu fynd i mewn i swydd. Ymysg y llwybrau gyrfaol posibl mae Seicoleg Glinigol neu Iechyd, Addysg, Hysbysebu, Seicoleg Chwaraeon, Seicoleg Fforensig a Marchnata neu Droseddeg.

# PSYCHOLOGY
WJEC A LEVEL / COLEG LLANDRILLO

### What will you study?

Psychology is defined as the science of the mind and behaviour.

The A Level course will cover six approaches.

- Biological, Behaviourist, Cognitive, Psychodynamic and Positive. Each approach attempts to explain human behaviour in a different way.
- You will also learn about how psychological research is designed, conducted and analysed, as well as looking at five contemporary debates in Psychology – from the reliability of eyewitness testimony to the ethics of neuroscience.

### Who is the course for?

The course is open to learners wishing to:

- pursue a career in Psychology or who have a general interest in human behaviour. It works well with most A Level subject combinations;
- gain an overview of the subject, and assumes no prior knowledge. However, you should have a scientific and enquiring mind, enjoy extended writing tasks and be comfortable analysing data.

### How will you be assessed?

The AS is examined through two written examinations at the end of the year. The A Level will be assessed through two further written exams at the end of year two.

### Entry requirements:

A GCSE grade C or above in English or Welsh, Maths and Science.

### Your options after the course:

You may decide to apply for an undergraduate degree in Psychology or related subject, or enter employment. Possible career paths include Health or Clinical Psychology, Education, Advertising, Sports Psychology, Marketing and Forensic Psychology or Criminology.



# GWASANAETHAU CYHOEDDUS
DIPLOMA ATODOL BTEC / COLEG LLANDRILLO

### Beth fyddwch yn ei astudio?

- Nifer o agweddau o weithio yn y gwasanaethau cyhoeddus drwy ystod gytbwys o astudiaethau, sy'n cyfuno sgiliau ymarferol gyda gwybodaeth ddamcaniaethol ac addysgu gan diwtoriaid sydd â phrofiad estynedig o gyflogaeth yn y gwasanaethau cyhoeddus mewn lifrai.
- Sgiliau sy'n gymwys mewn nifer o amgylcheddau gwaith gan gynnwys Cyfathrebu, Cymhwyso Rhif a TG.

### I bwy mae'r cwrs?

Dysgwyr sy'n chwilio am gyfle:

- i ddilyn gyrfa yn y Gwasanaethau Cyhoeddus neu Argyfwng e.e. Heddlu, Tân, y Gwasanaeth Ambiwlans, y Lluoedd Arfog, y Gwasanaeth Carchardai a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi;
- mae'r Diploma Atodol yn denu yr un nifer o bwyntiau UCAS â Lefel A ac mae'n ddewis gwych i'r rheiny sydd eisiau symud ymlaen i addysg uwch.

### Sut gewch chi eich asesu?

Does dim arholiad ysgrifenedig terfynol oherwydd rydych yn ennill eich cymhwyster drwy asesiad parhaus. Mae'r dulliau asesu a ddefnyddir yn yr unedau'n cynnwys: gwaith ymchwil unigol, gwaith grŵp, gwaith prosiect, cyflwyniadau llafar, dangosiadau gweledol, papurau ysgrifenedig, ac ati. Mae dau aseiniad o leiaf ymhob uned a bydd asesiadau llwyddiannus yn derbyn gradd pasio, teilyngdod neu anrhydedd.

### Gofynion mynediad:

Bydd angen lefel safonol o Lythrennedd a Rhifedd arnoch wedi'i gefnogi gan 4 TGAU Graddau A-C. Ar y llaw arall, efallai eich bod wedi ennill cymhwyster Lefel 2 perthnasol gydag o leiaf gradd teilyngdod.

### Eich opsiynau ar ôl y cwrs:

Mae'r paratoad ffurfiol ar gyfer cael mynediad i wasanaeth Cyhoeddus/Argyfwng yn un o brif themâu'r rhaglen. Caiff Diploma Atodol BTEC Lefel 3 ei gydnabod fel cymhwyster mynediad gan amrywiaeth mawr o gyflogwyr a sefydliadau AU.

# PUBLIC SERVICES
BTEC SUBSIDIARY DIPLOMA / COLEG LLANDRILLO

### What will you study?

- Many aspects of working in public services through a well-balanced range of studies, which combines practical skills with theoretical knowledge and taught by tutors who have extensive experience of employment within the uniformed public services.
- Skills that are applicable to many working environments including Communication, Application of Number and IT.

### Who is the course for?

Learners looking for an opportunity:

- to pursue a career within a Public or Emergency Service, e.g. Police, Fire, Ambulance Service, the Armed Forces, Prison Service and HM Revenue and Customs;
- the Subsidiary Diploma attracts the same number of UCAS points as an A Level and is an excellent choice for those wishing to progress to higher education.

### How will you be assessed?

There is no final written examination as you achieve your qualification through continuous assessment. Assessment methods employed within the units include: individual research, group work, projects work, oral presentations, visual displays, written papers etc. Each unit carries at least two assignments. Successful assessments will be graded at pass, merit or distinction.

### Entry requirements:

A standard level of Literacy and Numeracy supported by 4 GCSEs at Grades A – C. Alternatively, you may have achieved a related Level 2 qualification with a minimum of a merit grade.

### Your options after the course:

The structured preparation for entry into a Public/Emergency service is one of the main themes of the programme. The BTEC Level 3 Subsidiary Diploma is recognised as an entry qualification by a wide range of employers and HE institutions.



# GWASANAETHAU CYHOEDDUS
DIPLOMA BTEC / YSGOL BRYN ELIAN

### Beth fyddwch yn ei astudio?

- Mae'r unedau gorfodol yn ymdrin â Llywodraeth a Pholisïau, Arweinyddaeth a Gwaith Tîm, yn ogystal â Dinasyddiaeth ac Amrywiaeth.
- Gall yr unedau eraill gynnwys Parodrwydd Ffisegol, Trosedd, Pwerau'r Heddlu, Rhyfel a Gwrthdaro ac Alldeithiau.
- Mae ystod o athrawon yn darparu'r cwrs, yn unol â'u gwybodaeth arbenigol, gyda chymorth ymweliadau a sgyrsiau gan aelodau o'r gwasanaethau cyhoeddus.

### I bwy mae'r cwrs?

- Dysgwyr sydd â diddordeb mewn gyrfa yn un o'r gwasanaethau arfog megis y Fyddin, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub neu un o'r meysydd niferus o gyflogaeth y llywodraeth leol neu genedlaethol megis y Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng neu Wasanaeth Erlyn y Goron.
- Dysgwyr sydd eisiau dilyn cwrs a fydd yn rhoi gwybod iddynt am syniadau megis y Gyfraith, y Llysoedd, y Cyfryngau, Dinasyddiaeth a Hawliau Dynol.
- Mae'n gwrs sy'n ennyn parch mawr ac mae'n pwysleisio dysgu realistig ac yn rhoi ffocws ar waith.

### Sut gewch chi eich asesu?

Asesir y dysgwyr drwy gydol y cwrs; does dim arholiadau terfynol. Bydd yr asesiad drwy aseiniadau ysgrifenedig ac hefyd ddatganiadau tyst am weithgareddau ymarferol yr ydych yn eu cynllunio, eu gwneud a'u hadolygu. Byddwch yn astudio'r cymhwyster yma yn ystod Blwyddyn 12 ac mae'n gyfatebol ag un Lefel A llawn. Yna gall y dysgwyr llwyddiannus symud ymlaen i Flwyddyn 13 i astudio'r Diploma sy'n gyfatebol â dwy Lefel A.

### Gofynion mynediad:

Gall myfyrwyr sy'n ennill gradd C am Saesneg ochr yn ochr â chymwysterau eraill ar Lefel 2 wneud yn dda ar y cwrs yma.

### Eich opsiynau ar ôl y cwrs:

Mae'r cwrs yn baratoad rhagorol ar gyfer gyrfa yn un o'r gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r ystod gyfan o gyflogwyr yn cydnabod hwn. Mae hefyd yn denu yr un pwyntiau UCAS ag un/dwy Lefel A, ac yn sail gadarn ar gyfer addysg bellach neu uwch.

# PUBLIC SERVICES
BTEC DIPLOMA / YSGOL BRYN ELIAN

### What will you study?

- Compulsory units cover Government and Policies, Leadership and Teamwork as well as Citizenship and Diversity.
- Other units can include Physical Readiness, Crime, Police Powers, War and Conflict and Expeditions.
- A range of teachers deliver the course, according to their specialist knowledge, aided by visits and talks from members of the public services.

### Who is the course for?

- Learners who have an interest in a career in one of the armed services such as the Army, or the Police, Fire and Rescue Service or one of the many areas of local or national government employment such as Emergency Planning or the Crown Prosecution Service.
- Learners who wish to follow a course that will inform them about concepts such as the Law, the Courts, the Media, Citizenship and Human Rights.
- It is a highly-regarded course which emphasises realistic, work-focused learning.

### How will you be assessed?

Learners are assessed throughout the course; there are no terminal examinations.  Assessment will be through written assignments and also witness statements of practical activities that you plan, do and review. This qualification is studied during Year 12 and is the equivalent of one full A Level. Successful learners can then progress to Year 13 to study the Diploma which is equivalent to two A Levels.

### Entry requirements:

Learners who achieve a C grade pass at English alongside other qualifications at Level 2 can do well on this course.

### Your options after the course:

The course is an excellent preparation for a career in one of the public services. It is widely regarded by the full range of employers. It also attracts the same UCAS points as one/two A Levels, and is a firm basis for further or higher education.





I always wanted to do Sport and Exercise Science and when I read the LINC prospectus, this course caught my attention. It is good to have an opportunity to take this course as my school doesn't offer this opportunity.

# GWYDDOR CHWARAEON AC YMARFER CORFF

TYSTYSGRIF ESTYNEDIG BTEC / YSGOL EMRYS AP IWAN

### Beth fyddwch chi'n ei astudio?

**Unedau Gorfodol**

Uned 2: Anatomeg Weithredol - Asesiad allanol

Uned 3: Seicoleg Chwaraeon ac Ymarfer Corff Cymhwysol - Asesiad allanol

Uned 6: Hyfforddiant mewn Perfformiad a Ffitrwydd - Asesiad mewnol

**Unedau Opsiynol**

Mae'r dysgwyr yn cwblhau 1 Uned o'r rhestr isod sy'n cael ei hasesu'n fewnol

Uned 7: Biomecaneg mewn Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff

Uned 8: Hyfforddiant mewn Ffitrwydd Arbenigol

Uned 10: Gweithgareddau Corfforol ar gyfer Ymarfer Corff Unigol a Grŵp

### I bwy mae'r cwrs?

Dysgwyr a fyddai'n hoffi:

- y cyfle i gael swydd yn y sector chwaraeon a hamdden egnïol;
- symud ymlaen i addysg uwch neu gael rhagor o gymwysterau galwedigaethol proffesiynol;
- y cyfle i ddatblygu ystod o dechnegau, sgiliau a nodweddion personol i gyfrannu at fywyd gwaith.

### Sut gewch chi eich asesu?

Mae hwn yn gwrs 2 flynedd gydag arholiad ysgrifenedig 1 awr a 30 munud yn ogystal â 3 uned ychwanegol. Bydd y tasgau'n cael eu cwblhau yn ystod amser gwersi ac yn annibynnol. Mae'n rhaid i ddysgwyr gwblhau a chyflawni gradd Pasio Agos neu'n uwch ar gyfer yr unedau allanol gofynnol a gradd Pasio neu'n uwch ar gyfer yr uned fewnol ofynnol.

### Gofynion mynediad:

Diddordeb mewn chwaraeon a hamdden egnïol a chynnal lefelau ffitrwydd.

### Eich opsiynau ar ôl y cwrs:

Ar ôl y cwrs, gallwch ddewis gwneud cais am swydd ar unwaith gydag un o'r nifer fawr o ddarparwyr gweithgareddau hamdden ac awyr agored yng Ngogledd Cymru, lle byddai angen rhagor o hyfforddiant arnoch, neu fynd  i addysg uwch i astudio ar gyfer gradd yn arbenigo mewn Chwaraeon. Opsiwn arall fyddai eich bod, yn syml iawn, yn defnyddio pwyntiau UCAS i wneud cais am le ar gyrsiau eraill nad ydynt yn ymwneud ag addysg awyr agored.

# SPORT AND EXERCISE SCIENCE

BTEC EXTENDED CERTIFICATE / YSGOL EMRYS AP IWAN

### What will you study?

**Mandatory Units**

Unit 2: Functional Anatomy - Externally assessed

Unit 3: Applied Sport and Exercise Psychology - Externally assessed

Unit 6: Coaching for Performance and Fitness - Internally assessed

**Optional Units**

Learners complete 1 Unit from the list below which is internally assessed:

Unit 7: Biomechanics in Sport and Exercise Science

Unit 8: Specialised Fitness Training

Unit 10: Physical Activity for Individual and Group-based Exercise

### Who is the course for?

Learners who would like:

- the opportunity to enter employment in the sport and active leisure sector;
- to progress to higher education or obtain further professiona vocational qualifications;
- the opportunity to develop a range of techniques, personal skills and attributes to contribute to a working life.

### How will you be assessed?

This is a 2 year course with a I hour and 30 minute written examination plus 3 additional units. Tasks will be completed during lesson time and independently. Learners must complete and achieve at Near Pass grade or above for both mandatory external units and a Pass grade or above for the mandatory internal unit.

### Entry requirements:

An interest in sport and active leisure and maintaining fitness levels.

### Your options after the course:

After the course you can choose to apply for a job straight away with one of the large number of outdoor and leisure activity providers in North Wales, where you would need further training, or to go into higher education to study for a degree specialising in Sport. Alternatively you could simply use the UCAS points to apply to do other courses unrelated to outdoor education.

# CHWARAEON: ADDYSG AWYR AGORED:

## SGILIAU A GWEITHGAREDDAU AR GYFER CHWARAEON A HAMDDEN EGNÏOL / DIPLOMA BTEC / YSGOL JOHN BRIGHT

**Mae'r cwrs 2 flynedd yma'n Gymhwyster Arbenigol mewn Addysg Awyr Agored a fydd yn arwain at Ddiploma Cenedlaethol BTEC sy'n gyfatebol ag 1 Lefel A. Y canlyniad yw naill ai basio neu fethu. Os byddwch yn pasio cewch 32 o bwyntiau UCAS, sy'n gyfatebol â gradd C mewn Lefel A. Bydd opsiwn i gwblhau blwyddyn yn unig ac ennill Tystysgrif Genedlaethol sy'n gyfatebol â Lefel AS ac sy'n gyfatebol â gradd E mewn Lefel A.**

### Beth fyddwch yn ei astudio?

- Mae rhai unedau yn yr ystafell ddosbarth ond mae'r mwyafrif yn ymarferol ac yn cynnwys gweithgareddau oddi ar y safle.
- Gweithgareddau awyr agored mewn o leiaf dau faes sydd wedi'u seilio ar y tir (Cyfeiriannu, Cerdded Mynyddoedd a Dringo) a dau Weithgaredd Awyr Agored ac Anturus (Canwio, Mynd mewn Caiac a Hwylio).
- Mae alldaith ar y tir ac ar y dŵr bob blwyddyn hefyd.

### I bwy mae'r cwrs?

#### Blwyddyn 1 yn arwain at Dystysgrif mewn Sgiliau a Gweithgareddau ar gyfer Chwaraeon a Hamdden Egnïol (Addysg Awyr Agored)

Bydd y 3 uned – Gweithgareddau Awyr Agored ac Anturus, Sgiliau ar gyfer Gweithgareddau Awyr Agored ac Anturus ar y Tir ac Alldeithiau Awyr Agored ac Anturus, yn galluogi dysgwyr i:

- gyfranogi mewn gweithgareddau cyffrous yn yr awyr agored, dysgu a defnyddio technegau a sgiliau ymarferol, datblygu nodweddion a sgiliau arweiniad ymhellach;
- cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored ac anturus detholedig ar y tir ac adolygu eich perfformiad;
- cynllunio, cyfranogi mewn a myfyrio ar alldeithiau awyr agored ac anturus.

#### Blwyddyn 2 yn arwain at Ddiploma mewn Sgiliau a Gweithgareddau ar gyfer Chwaraeon a Hamdden Egnïol (Addysg Awyr Agored)

Bydd y 3 uned – Egwyddorion ac Arferion mewn Antur Awyr Agored, Sgiliau ar gyfer Gweithgareddau Awyr Agored ac Anturus ar y Dŵr a Gweithgareddau Amgen ar gyfer Antur Awyr Agored, yn galluogi dysgwyr i:

- ddatblygu gwybodaeth am egwyddorion ac arferion tanategol y diwydiant awyr agored yn cynnwys pob agwedd o ddarpariaeth, swyddogaeth ac arferion da;
- cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored ac anturus detholedig ar y dŵr ac adolygu eich perfformiad;
- deall, paratoi a chyfranogi mewn gweithgareddau amgen ar gyfer antur awyr agored.

### Sut gewch chi eich asesu?

Mae 100% o'r cwrs yma'n waith cwrs felly does dim arholiad.

### Gofynion mynediad:

O leiaf pump TGAU Gradd A*- C neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol. Byddai'n fanteisiol pe baech chi wedi llwyddo yn barod ar gwrs Lefel 2 BTEC mewn Chwaraeon neu mewn Addysg Awyr Agored ac yn gwybod pa ddull o ddysgu ac addysgu sy'n eich gweddu chi. Ond nid yw hyn yn hanfodol. Bydd gennych dystiolaeth o'ch diddordeb mewn gweithgareddau awyr agored ac anturus.

### Eich opsiynau ar ôl y cwrs:

Pan fyddwch wedi gorffen y cwrs gallwch ddewis a ydych am wneud cais am swydd yn syth gydag un o'r nifer fawr o ddarparwyr gweithgareddau awyr agored sydd i'w cael yng Ngogledd Cymru, lle byddwch angen cael rhagor o hyfforddiant. Opsiwn arall yw mynd yn syth i addysg uwch i astudio am radd addysgu gan arbenigo mewn Addysg Awyr Agored.

# SPORT: OUTDOOR EDUCATION:

## SKILLS AND ACTIVITIES FOR SPORTS AND ACTIVE LEISURE / BTEC DIPLOMA / YSGOL JOHN BRIGHT

**This 2 year course is a Specialist Qualification in Outdoor Education that will lead to a BTEC National Diploma, equivalent to 1 A Level. The outcome is either pass or fail. if you pass you will get 32 UCAS points, the equivalent of a C grade at A Level. There will be an option to complete one year only and gain a National Certificate which is equivalent to an AS Level and is the equivalent of an E grade at A Level.**

### What will you study?

- Some units are classroom based but the majority are practical and involve off-site activities.
- Outdoor activities in at least two land based (Orienteering, Mountain Walking and Climbing) and two water based (Canoeing, Kayaking and Sailing) Outdoor and Adventurous Activities.
- There is also a land-based and water-based expedition each year.

### Who is the course for?

#### Year 1 leading to a Certificate in Skills and Activities for Sports and Active Leisure (Outdoor Education)

The 3 units - Outdoor and Adventurous Activities, Skills for Land-based Outdoor and Adventurous Activities and Outdoor and Adventurous Expeditions will enable learners to:

- participate in exciting activities in the outdoors, learning and applying practical skills and techniques, further develop leadership skills and qualities;
- take part in selected land-based outdoor and adventurous activities and review your performance;
- to plan, participate in and reflect on outdoor and adventurous expeditions.

#### Year 2 leading to a Diploma in Skills and Activities for Sports and Active Leisure (Outdoor Education)

The 3 units - Principles and Practices in Outdoor Adventure, Skills for Water-based Outdoor and Adventurous Activities and Alternative Pursuits for Outdoor Adventure will enable learners to:

- develop knowledge of the underpinning principles and practices of the outdoor industry including all aspects of provision, function and good practice;
- take part in selected water-based outdoor and adventurous activities and to review performance;
- understand, prepare and participate in alternative pursuits for outdoor adventure.

### How will you be assessed?

This course is 100% coursework and has no examinations.

### Entry requirements:

At least five GCSEs at Grades A*- C or its vocational equivalent. It would be an advantage if you have already been successful in BTEC Level 2 Sport or Outdoor Education courses and know that the style of teaching and learning suits you, however, this is not essential. A proven interest in outdoor and adventurous activities.

### Your options after the course:

After the course, you can choose to apply for a job straight away with one of the large number of outdoor activity providers in North Wales, where you would need further training. Alternatively, you could go into higher education to study for a teaching degree specialising in Outdoor Education.



# CYMRAEG IAITH GYNTAF

LEFEL A CBAC / YSGOL Y CREUDDYN

**Beth fyddwch yn ei astudio?**

Ni fu erioed adeg fwy cyffrous i astudio'r Gymraeg fel pwnc Uwch Gyfrannol. Mewn meysydd mor amrywiol â'r cyfryngau, addysg, y gwasanaeth sifil, cysylltiadau cyhoeddus, byd cyfieithu a llywodraeth leol, y mae galw aruthrol am rai sydd â chymhwyster dda yn y Gymraeg. Mae Ysgol y Creuddyn wedi ymateb yn egnïol i'r alwad hon drwy gynnig cwrs diddorol a blaengar sy'n berthnasol i ofynion y byd modern. Yma cewch gyfle i feithrin sgiliau gwerthfawr ar gyfer swyddi yng Nghymru, ysgrifennu a siarad yn hyderus, dadansoddi a mynegi syniadau cymleth, yn ogystal â dysgu am ddiwylliant Cymru.

**I bwy mae'r cwrs?**

Mae'r cwrs yma wedi'i lunio i annog dysgwyr i:

- ddatblygu diddordeb mewn iaith a brwdfrydedd am iaith;
- datblygu dealltwriaeth o'r iaith mewn amrywiaeth o gyd-destunau;
- cyfathrebu'n hyderus, yn glir ac yn effeithiol yn yr iaith ar gyfer ystod o bwrpasau;
- datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gymdeithas gyfoes, cefndir diwylliannol a threftadaeth cymunedau lle siaredir yr iaith.

**Sut gewch chi eich asesu?**

**Uwch Gyfrannol**

CY1: Y Ffilm a'r Ddrama a Llafaredd - 20% tua ¾ awr i bob grŵp arholiad llafar

CY2: Asesiad Mewnol Ysgrifenedig (Gwaith Cwrs) - 15% Asesiad Mewnol

CY3: Defnyddio'r Iaith a Barddoniaeth - 15% Papur Arholiad Ysgrifenedig

**Uwch**

CY4: Y Nofel a Llafaredd - 15% tua ¾ awr i bob grŵp Arholiad Llafar

CY5: Y Chwedlau, Yr Hengerdd a'r Cywyddau - 15% Papur Ysgrifenedig

CY6: Gwerthfawrogi Llenyddiaeth a Defnyddio'r Iaith - 20% Papur Ysgrifenedig

**Gofynion Mynediad:**

TGAU Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth (gradd C neu uwch)

**Eich opsiynau ar ôl y cwrs:**

Mae nifer o ddisgyblion yn mynd ymlaen i astudio'r pwnc ar lefel gradd. Mae eraill wedi mynd ymlaen i wneud gradd yn y Gyfraith, Newyddiaduriaeth, Meddyginiaeth, Gwleidyddiaeth, Athroniaeth, Economeg ac eraill. Felly, pa bynnag faes y byddwch yn ei ddilyn fel gyrfa yn y dyfodol, bydd Cymraeg yn gwrs gwerthfawr a heriol a fydd yn datblygu nifer o'r sgiliau sydd yn hanfodol ar gyfer gyrfa lwyddiannus.

# WELSH FIRST LANGUAGE

WJEC A LEVEL / YSGOL Y CREUDDYN

**What will you study?**

There has never been a more exciting time to study Welsh at Advanced Subsidiary Level. In fields as varied as the media, education, the civil service, public relations, translation and local government, there is an enormous need for people with good qualifications in Welsh. Ysgol y Creuddyn has responded to this by providing an interesting and progressive course that is relevant to the needs of the modern world. Here you will be given the opportunity to foster valuable skills in preparation for jobs in Wales, write and speak confidently, analyse and express complex ideas, and learn about Welsh culture.

**Who is the course for?**

This course is designed to encourage learners to:

- develop an interest in, and enthusiasm for, language;
- develop an understanding of the language in a variety of contexts;
- communicate confidently, clearly and effectively in the language for a range of purposes;
- develop awareness and understanding of the contemporary society, cultural background and heritage of communities where the language is spoken.

**How will you be assessed?**

**Advanced Subsidiary**

CY1: Film, Drama and Speech - 20% approx.. ¾ hour for each Oral Examination group

CY2: Written Internal Assessment (Coursework) - 15% Internal Assessment

CY3: Using the Language and Poetry - 15% Written Examination Paper

**Advanced**

CY4: The Novel and Speech - 15% approx. ¾ hour for each Oral Examination group

CY5: The Legends, The Hengerdd and the Cywyddau - 15% Written Paper

CY6: Literary Appreciation and Use of Language - 20% Written Paper

**Entry Requirements:**

Welsh Language and Literature GCSE (grade C or higher)

**Your options after the course**

A number of pupils go on to study the subject to degree level. Others have taken a degree in Law, Journalism, Medicine, Politics, Philosophy, Economics and other subjects. Whichever career you choose, therefore, Welsh will be a valuable and challenging course that will develop anumber of skills that are essential for a successful career.



Pan fyddwch wedi penderfynu a ydych eisiau astudio cwrs LINC Conwy, dewch draw i VENUE CYMRU ar **Ddydd Mercher Chwefror 20fed 2019,** 12.45pm – 3.15pm i gael rhagor o wybodaeth.

When you have decided if you would like to study a LINC CONWY course, come along to VENUE CYMRU on **Wednesday 20th February 2019,** 12.45pm – 3.15pm to find out more.

## CWESTIYNAU CYFFREDIN

C: Sawl pwnc gaf i astudio mewn coleg / ysgol arall?

A: Cewch astudio un pwnc ar yr opsiwn LINC Conwy. Os yw eich ysgol yn gweithio mewn trefniant partneriaeth leol gydag ysgol gyfagos hefyd, gallwch ddewis astudio pynciau a gynigir yn y fan honno hefyd ar yr amod nad oes gwrthdrawiad yn yr amserlen. Mae teithio i ysgolion eraill yn gofyn ymrwymiad am hyd y cwrs.

C: A fydd raid i mi wisgo fy ngwisg ysgol os caf wersi mewn ysgol arall?

A: Nid yw gwisg ysgol yn ofynnol yn y coleg. Os oes gan eich ysgol wisg chweched dosbarth efallai y bydd disgwyl i chi wisgo hon wrth ddysgu mewn ysgol arall. Fel arall, bydd gwisg smart ond hamddenol yn dderbyniol.

C: Beth am drefniadau cinio?

A: Os byddwch eisiau cael eich cinio yn yr ysgol gynnal (yr un rydych yn ymweld â hi), byddent yn gwneud trefniadau i chi. Pan fyddwch yn astudio yn y coleg, gallwch ddefnyddio caffi 'Horizons'.

C: Sut fyddaf i'n teithio i goleg neu ysgol arall?

A: Byddwn yn darparu cludiant yn rhad ac am ddim i chi ond byddwch chi'n gyfrifol am gyrraedd ar yr amser cywir. Ni ddylech ddefnyddio eich cludiant eich hun. Ond, os ydych yn byw o fewn pellter cerdded at ddarparydd dysgu LINC Conwy, bydd disgwyl i chi ganfod eich ffordd eich hun o gyrraedd yno.

C: A oes gan bob darparydd dysgu yr un codau ymddygiad?

A: Nac oes. Bydd rhai gwahaniaethau ond cewch glywed am y rhain pan ddechreuwch eich cwrs. Bydd disgwyl i chi arwyddo Cytundeb y Dysgwr sy'n gofyn i chi barchu rheolau'r Darparydd Dysgu.

C: Beth ddylwn i ei wneud nesaf?

A: Pan fyddwch wedi penderfynu a ydych eisiau astudio cwrs LINC Conwy, dewch draw i VENUE CYMRU ar Ddydd Mercher Chwefror 20fed 2019, 12.45pm – 3.15pm i gael rhagor o wybodaeth. Yn ogystal â siarad gydag athrawon yn eich ysgol, bydd angen i chi lenwi'r ffurflen gais sydd yn y prosbectws yma a'i rhoi i'ch Pennaeth Chweched erbyn Dydd Mercher Medi'r 4ydd 2019.

## FREQUENTLY ASKED QUESTIONS

Q: How many subjects can I study at another school/ college?

A: You can study one subject on the LINC Conwy option. If your school is also working in a local partnership arrangement with a neighbouring school, you can choose to study subjects offered there as long as there is not a timetable clash. Travelling to other schools requires commitment for the length of the course.

Q: Will I have to wear school uniform if I have lessons in another school/ college?

A: School uniform is not required when at college. If your school has a sixth-form uniform then you may be expected to wear this when learning at another school. Otherwise smart, casual wear is acceptable.

Q: What about lunch arrangements?

A: If you want to have lunch at your host school (the one you're visiting), arrangements will be made for you. When studying at the college, you can use 'Horizons' cafeteria.

Q: How will I travel to another school or college?

A: Transport will be provided free of charge but it will be your responsibility to turn up at the correct time. You should not use your own transport. However, if you live within walking distance of your LINC Conwy learning provider, you will be expected to make your own way there.

Q: Do all learning providers have the same codes of conduct?

A: No. There will be some differences but you will be informed of these when you start your course. You will be expected to sign a Learners' Agreement which requires you to respect the rules of the learning provider.

Q: What do I do next?

A: When you have decided if you would like to study a LINC CONWY course, come along to VENUE CYMRU on Wednesday 20th February 2019, 12.45pm – 3.15pm to find out more. As well as talking to teachers at your school, you will need to complete the application in this prospectus and hand in to your Head of Sixth Form by Wednesday 4th September 2019.



## CANFOD RHAGOR

**Ewch i'r Nosweithiau Agored Chweched Dosbarth yn:**

| | |
|---|---|
| 18fed Rhagfyr 2018 | Ysgol Emrys ap Iwan |
| 22ain Ionawr 2019 | Ysgol Bryn Elian |
| 22ain Ionawr 2019 | Ysgol Dyffryn Conwy |
| 23ain Ionawr 2019 | Ysgol John Bright |
| 24ain Ionawr 2019 | Ysgol Eirias |
| 31ain Ionawr 2019 | Ysgol y Creuddyn |
| 5ed Chwefror 2019 | Ysgol Aberconwy |

I ganfod rhagor am eich dewisiadau cwrs bob Dydd Mercher ewch i Brynhawn Gwybodaeth Partneriaeth LINC Conwy ar

**Chwefror 20fed 2019**
**yn VENUE CYMRU, LLANDUDNO**
**rhwng 12.45pm a 3.15pm**

Bydd cyflogwyr o ranbarth Gogledd Cymru yno hefyd i gwrdd â chi ac i roi syniadau i chi am gyfleoedd i weithio mewn swydd ar ôl y chweched dosbarth, coleg, hyfforddiant neu'r brifysgol.

**Diwrnod Canlyniadau Arholiadau TGAU**

**22ain Awst 2019**

**Y dyddiad cau ar gyfer Ffurflen Gais LINC Conwy (i'w rhoi i'ch Pennaeth Chweched)**

**Dydd Mercher Medi 4ydd 2019**

Mae copïau o'r prosbectws ar gael ar
www.conwy.gov.uk
ac ar wefan eich ysgol

**Mae cyrsiau LINC Conwy'n cychwyn ar:**

**Ddydd Mercher Medi'r 11eg 2019**

## FIND OUT MORE

**Go to Sixth Form Open Evenings at:**

| | |
|---|---|
| 18th December 2018 | Ysgol Emrys ap Iwan |
| 22nd January 2019 | Ysgol Bryn Elian |
| 22nd January 2019 | Ysgol Dyffryn Conwy |
| 23rd January 2019 | Ysgol John Bright |
| 24th January 2019 | Ysgol Eirias |
| 31st January 2019 | Ysgol y Creuddyn |
| 5th February 2019 | Ysgol Aberconwy |

To find out more about your Wednesday course choices visit the LINC Conwy Partnership Information Event on the

**20th February 2019**
**at VENUE CYMRU, LLANDUDNO**
**between 12.45pm – 3.15pm**

Employers from the North Wales region will also be there to meet you and provide you with ideas for employment opportunities after sixth form, college, training or university.

**GCSE Exam Results Day**

**22nd August 2019**

**Deadline for LINC Conwy Application Form (to be handed to your Head of Sixth)**

**Wednesday 4th September 2019**

Copies of the prospectus are available on
www.conwy.gov.uk
and your school's website

**LINC Conwy Courses start:**

**Wednesday 11th September 2019**

Y dyddiad cau ar gyfer
Ffurflen Gais LINC Conwy
(i'w rhoi i'ch Pennaeth Chweched)
**Dydd Mercher Medi 4ydd 2019**

Deadline for
LINC Conwy Application Form
(to be handed to your Head of Sixth)
**Wednesday 4th September 2019**



# FFURFLEN GAIS 2019
CYRSIAU LEFEL 3

**Rydym wedi cynnwys copi o'r ffurflen gais gyda'r prosbectws yma. Llenwch hon a'i rhoi i'ch Pennaeth Chweched erbyn Dydd Mercher Medi'r 4ydd 2019 os gwelwch yn dda.**

# APPLICATION FORM 2019
LEVEL 3 COURSES

**There is a copy of the application form enclosed with this prospectus. Please complete it and hand to your Head of Sixth by Wednesday 4th September 2019.**


LINC Conwy
Cyrsiau Partneriaeth i ddysgwyr ôl-16 yng Nghonwy
Partnership Courses for post-16 learners in Conwy
CONWY
FFURFLEN GAIS 2019
CYRSIAU LEFEL 3
EICH ENW: BLWYDDYN
EICH YSGOL:
DYDDIAD GENI:
TEITL Y CWRS LINC CONWY / PARTNERIAETH SYDD I GAEL EI ASTUDIO:
I'W ASTUDIO YN:
APPLICATION FORM 2019
LEVEL 3 COURSES
YOUR NAME: YEAR
YOUR SCHOOL:
DATE OF BIRTH:
TITLE OF LINC CONWY/ PARTNERSHIP COURSE TO BE STUDIED:
TO BE STUDIED AT:
RHESTRWCH YR ARHOLIADAU ALLANOL RYDYCH WEDI EU SEFYLL A'R GRADDAU A ENILLWYD:
LIST THE EXTERNAL EXAMINATIONS THAT YOU HAVE TAKEN AND GRADES ACHIEVED:
Arholiad / Exam: Gradd / Grade: Arholiad / Exam: Gradd / Grade:
Rhestrwch y cyrsiau eraill rydych wedi eu dewis:
List the other courses you have chosen to study:
Pam rydych yn gwneud cais am y cwrs hwn? / Why are you applying for this course?
...yfodol? / What are your future career plans?
List any hobbies, interests, clubs / associations you belong to:
Dyddiad / Date
Please give this application form to your Head of Sixth Form no later than midday on Wednesday 4th September 2019. Thank you.
...USE ONLY
Ardderchog Excellent | Da Good | Canolig Average | Gwael Poor
...u consider relevant:
...Llofnod / Signed
Dyddiad / Date
Sylwadau'r darparydd dysgu / Learning Provider Comment:
A dderbyniwyd ar y cwrs? Do/Naddo? / Accepted onto the course? Yes/No? Do/Yes Naddo/No
Os nad, rhowch ddisgrifiad byr o'r rhesymau am beidio â chynnig lle / If no, please give a brief description of the reasons for not offering a place:
Llofnod / Signed
Dyddiad / Date



Cyrsiau Partneriaeth i ddysgwyr ôl-16 yng Nghonwy

Partnership Courses for post-16 learners in Conwy

Prosbectws | Prospectus | 2019 | 2020

